# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 10 Hydref 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(87)v3

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ

Dechreuodd yr eitem am 13:30

Gofynnwyd pob un o'r 14 o gwestiynau. Cafodd cwestiynau 2 a 5 eu grwpio. Cafodd cwestiynau 7 a 10 eu grwpio.

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

Dechreuodd yr eitem am 14:14

Gofynnwyd pob un o'r 15 o gwestiynau. Atebwyd cwestiwn 4 gan y Dirprwy Weinidog Amaeth, Pysgodfeydd, Bwyd a Rhaglenni Ewropeaidd.

### 3. Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Lygredd ym Mornant Porth Tywyn

Dechreuodd yr eitem am 14:55

**NDM5057 William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Ddeiseb P-03-238: Llygredd ym Mornant Porth Tywyn, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Gorffennaf 2012.

Noder: Gosodwyd ymateb Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar 3 Hydref 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 15:32

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5058 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth y DU i ysgogi'r economi, uwchraddio'r seilwaith a chreu swyddi yng Nghymru.

2. Yn gresynu bod Llywodraeth Cymru wedi methu â defnyddio'r dulliau sydd ar gael iddi i dyfu economi Cymru.

3. Yn annog Llywodraeth Cymru i weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y DU i sicrhau ffyniant i bobl Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 19 | 0 | 31 | 50 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ym mhwynt 1, dileu 'croesawu'r' a rhoi 'nodi'r' yn ei le.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 8 | 17 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 2.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 8 | 17 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn annog Llywodraeth Cymru i geisio pwerau benthyca gwirioneddol ac i greu cwmni hyd braich, nad yw'n talu difidend, i ariannu prosiectau cyfalaf newydd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 12 | 5 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud cynnydd ar Ardaloedd Menter, diwygio ardrethi busnes, strategaeth weithgynhyrchu a band eang ar gyfer busnesau fel mater o frys, er mwyn helpu i ysgogi'r economi.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi sefydlu Banc Buddsoddi Gwyrdd, fel ffordd o helpu i ysgogi'r economi.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pa mor bwysig i Gymru yw uwchraddio’r seilwaith rheilffyrdd drwy drydaneiddio, yn ogystal â’r manteision yn sgîl hyn i’r economi, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i drydaneiddio prif reilffordd gogledd Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:

**NDM5058 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi’r camau a gymerwyd gan Lywodraeth y DU i ysgogi’r economi, uwchraddio’r seilwaith a chreu swyddi yng Nghymru.

2. Yn annog Llywodraeth Cymru i weithio’n adeiladol gyda Llywodraeth y DU i sicrhau ffyniant i bobl Cymru.

3. Yn annog Llywodraeth Cymru i geisio pwerau benthyca gwirioneddol ac i greu cwmni hyd braich, nad yw’n talu difidend, i ariannu prosiectau cyfalaf newydd.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud cynnydd ar Ardaloedd Menter, diwygio ardrethi busnes, strategaeth weithgynhyrchu a band eang ar gyfer busnesau fel mater o frys, er mwyn helpu i ysgogi’r economi.

5. Yn croesawu’r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi sefydlu Banc Buddsoddi Gwyrdd, fel ffordd o helpu i ysgogi’r economi.

6. Yn nodi pa mor bwysig i Gymru yw uwchraddio’r seilwaith rheilffyrdd drwy drydaneiddio, yn ogystal â’r manteision yn sgîl hyn i’r economi, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i drydaneiddio prif reilffordd gogledd Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 12 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi’i ddiwygio.**

## 5. Dadl Plaid Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16:33

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5059 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi pwysigrwydd masnachfraint Prif Reilffordd Arfordir y Gorllewin i wasanaethau rheilffyrdd yng ngogledd Cymru ac yn cydnabod blerwch Llywodraeth y DU wrth ddelio â masnachfraint Prif Reilffordd Arfordir y Gorllewin yn ddiweddar.

2. Yn nodi bod gan Lywodraeth y DU swyddogaeth gydlofnodi o hyd ym masnachfraint Cymru a'r Gororau.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ceisio cyfrifoldeb llawn dros adnewyddu masnachfraint Cymru a'r Gororau;

b) ceisio datganoli'r gyllideb a'r pwerau dros y seilwaith rheilffyrdd; a

c) sicrhau bod model di-elw yn cael ei greu ar gyfer masnachfraint Cymru a'r Gororau.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 8 | 0 | 43 | 51 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1, dileu popeth ar ôl 'Cymru'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 34 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd Gwelliant 2 a gyflwynwyd i'r cynnig hwn.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 3.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 39 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu 3c) a rhoi yn ei le "archwilio'r holl ddewisiadau ar gyfer masnachfraint Cymru a'r Gororau gan gynnwys model busnes di-elw posibl"

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 8 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gan fod gwelliant 4 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliant 5 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3):

Yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod prif reilffordd gogledd Cymru yn cael ei thrydaneiddio erbyn diwedd Cyfnod Rheoli 6.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu ymroddiad Llywodraeth y DU i Gymru drwy ei hymrwymiad i drydaneiddio Prif Reilffordd y Great Western i Abertawe a thrydaneiddio rheilffyrdd Cymoedd y De.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 34 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 7.**

**Gwelliant 8 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pa mor bwysig yw bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r dulliau sydd ar gael iddi i wneud y mwyaf o fanteision trydaneiddio'r rheilffyrdd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **51** | **0** | **0** | **51** |

**Derbyniwyd gwelliant 8.**

**Gwelliant 9 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch y posibilrwydd o drydaneiddio'r rheilffyrdd yng ngogledd Cymru yn y dyfodol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 9.**

**Gwelliant 10 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio'r broses dendro i sicrhau buddsoddiad yn ansawdd cerbydau a'r seilwaith.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 10:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 10.**

**Gwelliant 11 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod Prif Reilffordd Arfordir y Gorllewin a'r Rheilffordd HS2 newydd yn hanfodol ar gyfer gwella gwasanaethau i ranbarth gogledd Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod gwasanaethau i ogledd Cymru yn cael eu hatgyfnerthu yn y dyfodol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 11:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 11.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5059 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi pwysigrwydd masnachfraint Prif Reilffordd Arfordir y Gorllewin i wasanaethau rheilffyrdd yng ngogledd Cymru ac yn cydnabod blerwch Llywodraeth y DU wrth ddelio â masnachfraint Prif Reilffordd Arfordir y Gorllewin yn ddiweddar.

2. Yn nodi bod gan Lywodraeth y DU swyddogaeth gydlofnodi o hyd ym masnachfraint Cymru a'r Gororau.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ceisio cyfrifoldeb llawn dros adnewyddu masnachfraint Cymru a'r Gororau;

b) ceisio datganoli'r gyllideb a'r pwerau dros y seilwaith rheilffyrdd; ac

c) archwilio'r holl ddewisiadau ar gyfer masnachfraint Cymru a'r Gororau gan gynnwys model busnes di-elw posibl

d) yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod prif reilffordd gogledd Cymru yn cael ei thrydaneiddio erbyn diwedd Cyfnod Rheoli 6

4. Yn nodi pa mor bwysig yw bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r dulliau sydd ar gael iddi i wneud y mwyaf o fanteision trydaneiddio'r rheilffyrdd.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch y posibilrwydd o drydaneiddio'r rheilffyrdd yng ngogledd Cymru yn y dyfodol.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio'r broses dendro i sicrhau buddsoddiad yn ansawdd cerbydau a'r seilwaith.

7. Yn credu bod Prif Reilffordd Arfordir y Gorllewin a'r Rheilffordd HS2 newydd yn hanfodol ar gyfer gwella gwasanaethau i ranbarth gogledd Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod gwasanaethau i ogledd Cymru yn cael eu hatgyfnerthu yn y dyfodol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 0 | 5 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 17:21.

**6. Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 17:30

**NDM5056 Mick Antoniw (Pontypridd)**

Yr achos dros gadw’r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru.

Mae Llywodraeth y DU wedi cynnig diddymu’r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol. Bydd hyn yn cael effaith niweidiol ar amaethyddiaeth yng Nghymru ac yn cyfrannu at dlodi yng nghefn gwlad. Dylem gadw’r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:50

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 16 Hydref 2012**